**Hannah Blythyn AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol**
**Deputy Minister for Housing and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref MA/HB/2728/20

Mick Antoniw AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

SeneddLJC@senedd.wales

2 Medi 2020

Annwyl Mick,

Rwy'n ysgrifennu atoch i'ch hysbysu fy mod wedi gosod memorandwm cydsyniad offeryn statudol ("y memorandwm") mewn perthynas â Rheoliadau Gwastraff (Economi Gylchol) (Diwygio) 2020 ("y Rheoliadau") a osodwyd gerbron y Senedd ar 27 Awst.

Prif ddiben y Rheoliadau yw trosi gofynion Pecyn Economi Gylchol yr UE ar gyfer 2020 yng Nghymru a Lloegr, a'r Alban a Gogledd Iwerddon ar gyfer newidiadau cyfansawdd/newidiadau i'r DU neu Prydain Fawr sydd eu hangen. Bydd y Gweinyddiaethau Datganoledig yn llunio eu rheoliadau eu hunain ar gyfer y diwygiadau pellach sydd eu hangen i ddeddfwriaeth nad yw'n rhan o'r cwmpas hwn.

Mae'r diwygiadau sydd wedi'u cynnwys yn y Rheoliadau yn berthnasol i ystod o ddeddfwriaeth sylfaenol. Mae'r diwygiadau hyn yn diweddaru'r dyddiad/diffiniadau er mwyn adlewyrchu'r diwygiadau diweddaraf i'r Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff.

Mae'r Rheoliadau'n destun y weithdrefn negyddol yn y Senedd a byddant yn dod i rym ar 1 Hydref ar yr amod nad yw'r un Aelod Seneddol yn gofyn am iddynt gael eu dirymu.

Yn gywir,

Hannah Blythyn

**Hannah Blythyn AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol
Deputy Minister for Housing and Local Government

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN
Gohebiaeth.Hannah.Blythyn@llyw.cymru
Correspondence.Hannah.Blythyn@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.